



**Monmouth** | Ysgol Gyfun  
Comprehensive School | **Trefynwy**

# Athro/Athrawes Saesneg

Rhan amser (0.5) Contract dros dro 1 flwyddyn

Yn dechrau 1<sup>af</sup> Medi 2024

## Pecyn Recriwtio



## Cyflwyniad gan y Prifathro

---

Diolch i chi am eich diddordeb yn y swydd hon.

Rydym yn falch iawn o'n hysgol gynhwysol ac uchelgeisiol, ac mae gennym ddisgwyliadau uchel tu hwnt o bob un o'n myfyrwyr. Rydym yn ymfalchïo yn eu galluogi i dyfu a ffynnu. Er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen i'n myfyrwyr wneud dau beth syml – gweithio'n galed a bod yn garedig. Mae ein myfyrwyr a staff yn ffynnu mewn cymuned lle mae cysondeb ac arferion yn mynd law yn llaw â ni yn adnabod pob myfyriwr yn dda a'u cefnogi i gyflawni eu potensial.

Mae gennym fantais adeilad ysgol ysblennydd sydd wedi ennill gwobrau, a gafodd ei gwblhau'n ddiweddar dan raglen Ysgolion 21ain Ganrif. Mae'n gyfleuster modern gwych sydd ag addysg yn greiddiol iddo. Yng nghanol Trefynwy, rydym yn gwasanaethu ein cymuned leol yn ogystal ag ardaloedd eraill cyfagos yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae gennym tua 1,700 o fyfyrwyr a 200 o staff, ac mae mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn.

Rydym yn hollol benderfynol i ddarparu safon eithriadol o addysg ar gyfer pob plentyn sy'n dod i'n hysgol, fel eu bod yn cael y cyfle i arwain bywydau hapus a llwyddiannus. Seiliwyd ein hymagwedd at y Cwricwlwm i Gymru ar bwysigrwydd pynciau ac ar egwyddor gwybodaeth rymus. Mae ein gwaith ar hyn yn bwnc astudiaeth achos ddiweddar gan Estyn i rannu ein hymarfer yn fwy eang. Seiliwyd ein haddysgeg ar dystiolaeth ymchwil dysgu a sut i uchafu cynnydd myfyrwyr.

Rydym yn hollol gynhwysfawr ac yn darparu ar gyfer ystod eang o anghenion dysgu. Ar hyn o bryd mae 14% o boblogaeth yr ysgol ar y Gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae gennym hefyd Ganolfan Adnoddau Arbenigol, sy'n destun astudiaeth achos ddiweddar gan Estyn am ei darpariaeth eithriadol o gryf. Daw myfyrwyr o ystod eang o gefndiroedd

economaidd-gymdeithasol a'r cyfartalog treigl ar gyfer pryddau ysgol am ddim yw 13.8%.

Croesawn geisiadau gan ymgeiswyr y mae eu nodweddion a gwerthoedd personol yn adlewyrchu'r rhai yn y fanyleb person, ac y mae eu profiadau hefyd yn eu rhoi mewn sefyllfa gref i gyflawni'r disgrifiad swydd. Cynigir rhaglen gynefino lawn a dysgu proffesiynol ystyrlon i'r holl staff.

Byddwch yn ein cael yn grŵp o gydweithwyr cefnogol a chyfeillgar, sy'n cydweithio i ddarparu safon ragorol o addysg ar gyfer yr holl fyfyrwyr yn ein gofal. Rydym yn ymfalchïo yn yr hyn a wnawn, ac yn parhau i fod yn uchelgeisiol tu hwnt ar gyfer yr hyn y gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd yn y dyfodol.

Edrychaf ymlaen at ddarllen eich cais os penderfynwch wneud cais.

Dymuniadau gorau

**Hugo Hutchison**  
**Prifathro**



## Disgrifiad Swydd

---

- 1 Teitl y Swydd:** Athro/Athrawes Saesneg
  
- 2 Gradd Gyflog:** Graddfa Gyflog Athrawon
  
- 3 Perthnasoedd**
  - 3.1 Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol i'r Pennaeth drwy Arweinydd y Gyfadran Saesneg ar gyfer dyletswyddau dysgu'r pwnc ac i Beneithiaid Blwyddyn ar gyfer Dyletswyddau Dosbarth.
  - 3.2 Mae deiliad y swydd yn gweithio ar lefel broffesiynol gyda phob cydweithiwr (yn allanol ac yn fewnol) fel sy'n briodol i sefydlu a chynnal perthnasoedd cynhyrchiol.
  - 3.3 Mae deiliad y swydd yn cydlynu gyda rhieni, gofalwyr a myfywyr fel sy'n briodol.
  
- 4 Diben y swydd**
  - 4.1 Cyfrannu at addysgu, a gwaith arall y Gyfadran, fel y'i diffinnir gan ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru). Fel Athro Dosbarth, i ymgymryd â dyletswyddau i gefnogi cynnydd myfyrwyr yn y Dosbarth.
  
- 4 Cyfrifoldebau**
  - 5.1 Addysgu a chymryd rhan yn natblygiad cynlluniau gwaith, deunyddiau a meysydd llafur y Gyfadran, gan fynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen.
  - 5.2 Bod yn gyfrifol am eich datblygiad proffesiynol eich hun gan ddefnyddio Cofnod Perfformiad Ysgol Gyfun Trefynwy a'r Ddalen Ddatblygu yn y Polisi Rheoli Perfformiad a Datblygu Proffesiynol i lywio a chefnogi cynnydd gyda'r nod o gyrraedd safonau proffesiynol.
  - 5.3 Rheoli a goruchwylio defnydd a storio llyfrau, deunyddiau papur a deunyddiau addysgu eraill gan sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw Reoliadau Iechyd a Diogelwch.
  - 5.4 Cyflawni dyletswyddau Athro/Athrawes Dosbarth yng nghyswllt disgyblion i gynnwys:
    - datblygu perthnasoedd dysgu cadarnhaol
    - sefydlu perthynas dda gyda disgyblion i ddatblygu eu potensial cymdeithasol ac academaidd ac i fod yn brif ffynhonnell cyfeirio
    - marcio cofrestri dosbarth, gan sicrhau y nodir absenoldeb a hwyrineb a chymryd camau gweithredu priodol pan nad ydynt
    - paratoi adroddiadau, proffiliau a thystlythyrau ar ddisgyblion fel sydd angen
    - monitro gwaith cartref disgyblion, addysgu cyfnodau dosbarth, hebrwng y dosbarth i wasanaethau a mynychu cyfarfodydd tiwtoriaid a gaiff eu galw gan y Pennaeth Blwyddyn
  - 5.5 Gweithio wrth ochr y Pennaethiaid Blwyddyn i fonitro cynnydd myfyrwyr a gosod targedau, a sicrhau y caiff anghenion myfyrwyr eu diwallu.
  - 5.6 Goruchwylio dyletswyddau disgyblion fel y manylir gan y Prifathro.

## Disgrifiad Swydd

---

- 5.7 Sicrhau fod myfyrwyr yn cael y gefnogaeth maent ei hangen gan yr ysgol ac asiantaethau allanol.
- 5.8 Cynnal a chydymffurfio gyda darpariaethau statudol y Rheoliadau Iechyd a Diogelwch Gwaith 1999, Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant Sir Fynwy 2017 ac unrhyw bolisiau eraill perthnasol gan y Cyngor a'r Ysgol yn ymwneud â diogelu ac iechyd a diogelwch.
- 5.9 Dilyn polisiau a gweithdrefnau yr ysgol a'r ddiogelu ac amddiffyn plant ym mhob gwaith gyda pholant a theuluoedd.
- 5.10 Gwybod am a chydymffurfio gyda pholisiau a gweithdrefnau yn ymwneud â rheoli Ymddygiad, gwisg ysgol, cyfrinachedd a diogelu data, gan hysbysu person priodol am bob mater o gonsyrn.
- 5.11 Cynnal a hyrwyddo gweledigaeth ac ethos yr ysgol.
- 5.12 Cymryd rhan mewn hyfforddiant, gweithgareddau dysgu a datblygu perfformiad fel sydd angen.

### 6 Datblygiad Proffesiynol

Mae'r ysgol yn ymroddedig i gefnogi pawb mewn datblygu eu hymarfer i gyflawni'r deilliannau gorau oll ar gyfer pob myfyriwr. Mae ein polisi ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yn amlinellu'r ddarpariaeth ac ymarfer ar gyfer y swydd hon.

### 7 Rheoli Perfformiad

Mae ein polisi ac ymarfer Rheoli Perfformiad yn ein cefnogi i gyflawni nodau ac amcanion yr ysgol wrth godi safonau. Caiff rheoli perfformiad unig ei integreiddio yn systemau a blaenoriaethau'r ysgol yn ehangach.

- 8 Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd yn ddarostyngedig i'r rhai a fanylir yn y Datganiad ac Amodau Cyflogaeth a bydd yn cyfrif fel amser a gyfarwyddir fel y manylir mewn datganiad o'r fath ac fel y'i diffinnir gan y Pennaeth.

- 9 Nid yw'r disgrifiad swydd hwn yn diffinio yn fanwl holl ddyletswyddau/cyfrifoldebau y swydd. Caiff y disgrifiad swydd ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn a gall gael ei addasu neu ei ddiwygio ar ôl ymgynghoriad a chytundeb gyda deiliad y swydd.



## Manyleb Personol

	Gofyniad	Hanfodol neu Dymunol	Sut y profir Defnyddir (S) i Lunio Rhestr Fer
<b>Addysg/Cymwysterau</b>			
1.1	Gradd mewn Saesneg neu ddisgyblaeth gysylltiedig	H	Ffurflen Gais
1.2	Cymhwyster addysgu	H	Ffurflen Gais
<b>Profiad</b>			
2.1	Mae croeso cyfartal i ymarferwyr sydd newydd gymhwyso neu ymarferwyr profiadol.		
<b>Doniau a Sgiliau</b>			
3.1	Y gallu i gynnig Saesneg hyd at lefel TGAU	H	Ffurflen Gais/Cwfweliad
3.2	Y gallu i gynnig Saesneg hyd at Safon Uwch	D	Ffurflen Gais/Cwfweliad
3.3	Gallu i ennyn brwdfrydedd a chymell myfyrwyr yn Saesneg	H	Ffurflen Gais/Cwfweliad/ Gwers Micro
3.4	Cynnal safon uchel o berthynas rhwng athro-myfyriwr yn yr ystafell ddosbarth	H	Cyfweliad / Gwers Micro / Tystlythyr
3.5	Y gallu i weithio fel Tiwtor Dosbarth effeithiol	H	Ffurflen Gais/Cwfweliad
3.6	Medru darparu cyfleoedd allgyrsiol i fyfyrwyr	D	Ffurflen Gais/Cwfweliad
<b>Nodweddion Personol</b>			
4.1	Bod yn gyfathrebydd effeithiol gyda'r sgiliau rhyngpersonol sydd eu hangen i weithio'n agos gyda chydweithwyr a myfyrwyr	H	Cyfweliad
4.2	Medru cyfrannu'n frwdfrydig at weledigaeth ac amcanion yr ysgol	H	Cyfweliad
4.3	Bod yn aelod effeithiol o dîm a medru cymryd yr awenau	H	Cyfweliad
4.4	Bod yn drefnus a medru gweithredu polisiau'r ysgol yn effeithiol	H	Cyfweliad
4.5	Bod â chymhelliant uchel	H	Cyfweliad

## Manyleb Personol

---

4.6	Bod ag agwedd hyblyg at waith a phobl	H	Cyfweliad
4.7	Bod yn ymroddedig i ddatblygiad personol pellach	H	Cyfweliad
<b>Diogelu</b>			
5.1	Ymroddiad i les disgyblion, diogelu ac amddiffyn plant	H	Cyfweliad
5.2	Tystlythyrau cadarnhaol	H	Yn dilyn llunio'r rhestr fer
5.3	DBS Estynedig	H	Yn dilyn y cyfweliad

## Gwybodaeth am y Gyfadran – Saesneg

---

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â thîm Saesneg yn Ysgol Gyfun Trefynwy. Mae'r rôl rydych chi'n gwneud cais amdani yn gyfle cyffrous i ymuno â thîm angerddol o athrawon deinamig sydd wedi ymrwymo, nid yn unig i hyrwyddo cymhwysedd mewn llythrennedd, ond i feithrin cariad at ddarllen, ysgrifennu, siarad a rhyngweithio yn ein pobl ifanc.

Mae Saesneg yn Ysgol Gyfun Trefynwy yn fwy na chyfanswm ei rannau. Mae ein hethos fel adran yn canolbwyntio i raddau helaeth ar yr athroniaeth nad yr hyn yr ydych yn ei addysgu ond y ffordd yr ydych yn ei addysgu sy'n wirioneddol bwysig. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw beth yn cael eu rhwystro, sy'n ein galluogi i ehangu gorwelion myfyrwyr a'u cyflwyno i gysyniadau newydd a chyffrous. Er enghraifft, mae ein cwricwlwm BI7 yn cynnwys cyflwyniad i hanes yr iaith Saesneg, gan gynnwys cerrig milltir pwysig yn esblygiad ein hiaith.

Teimlwn fod cwricwla ysgolion yn aml yn cymryd agwedd eithaf gofalus ac arwynebol tuag at astudio iaith a llenyddiaeth. Dyma pam, pan fyddwn yn cyflwyno myfyrwyr i gysyniadau a genre, megis ffuglen dystopaidd, nid yn unig yr ydym yn edrych ar nodweddion ysgrifennu dystopaidd, ond yn archwilio'r cyd-destun a'r sylwebaeth sydd wrth wraidd y syniad o'r stori; rydym yn archwilio cymhelliad yr awdur ac yn cymhwyso'r egwyddorion hyn i'n hysgrifennu dystopaidd ein hunain.

Ein cred ni yw bod Saesneg yn gwneud cyfraniad real ac unigryw iawn i fywydau pobl ifanc; mae'r llyfrau rydyn ni'n eu darllen gyda'n gilydd yn ein gwersi Saesneg yn tueddu i aros gyda ni ar hyd y blynyddoedd ac rydyn ni'n gweld hyn fel cyfle. Rydyn ni am i'n pobl ifanc ddarllen yn annibynnol ac er pleser, ac nid yw hyn yn gamp hawdd mewn byd lle mae pobl ifanc yn eu harddegau yn treulio saith awr ar gyfartaledd ar eu ffonau bob dydd. Mae'n ddyletswydd arnom i fodelu arferion darllen da a dangos iddynt ba mor drochol y gall darllen fod.



## Gwybodaeth am y Gyfadran – Saesneg

---

Mae'r gyfadran Saesneg yn ymfalchïo yn ei chanlyniadau a chyflawniad ei myfyrwyr. Yn benodol, hoffem ymfalchïo yn ein canlyniadau yn CA5 wrth i'n canlyniadau ddod i raddau 1 a 2 ALPS, sy'n ein gwneud yn un o'r canolfannau sy'n cyflawni orau yn y wlad ar gyfer TAG Saesneg Iaith a TAG Saesneg Llenyddiaeth. Rydym hefyd yn falch o'r ffaith bod ein holl fyfyrwyr yn astudio iaith a llenyddiaeth ar lefel TGAU - ni ddylai llenyddiaeth fod yn opsiwn – ac mae ein canlyniadau'n gadarn gydag 81% o fyfyrwyr yn cyflawni A\* - C mewn un neu'r llall o'r pynciau hyn yn ein blwyddyn orau (cyn COVID).

Mae cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru wedi rhoi esgus da iawn i ni ailgynllunio ein cwricwlwm yn llwyr. Yn ganolog i'r cwricwlwm Saesneg yn ein hysgol mae caffael gwybodaeth trwy lenyddiaeth heriol ac amrywiol; cyfoethogi diwylliannol trwy destunau atodol; a datblygu trachywired wrth feddwl a chyfathrebu gan addysgu geirfa yn agored. Mae'r iteriad cyntaf hwn o'n cwricwlwm newydd wedi cael ei gydnabod a'i ganmol gan ESTYN, ac rydym yn gyffrous i ddechrau gweithio ar yr iteriad nesaf.

Mae gennym hefyd lu o glybiau allgyrsiol sydd wedi'u cynllunio i wella prifddinas ddiwylliannol Saesneg yn Ysgol Gyfun Trefynwy. Mae'r clybiau hyn yn cynnwys grwpiau darllen (sy'n cwmpasu cysgodi Carnegie), clwb ysgrifennu creadigol o'r enw Muse, a grŵp siarad a dadlau. Rydym bob amser yn awyddus i ehangu ein rhaglen o glybiau ar ôl ysgol, ac yn croesawu ymgeiswyr sy'n awyddus i gyfrannu at fywyd allgyrsiol yr ysgol.

Rydym yn ffodus iawn yn ein hamgylchedd ysgol yr unfed ganrif ar hugain, gan fod gan y gyfadran Saesneg gyfres o ddeg ystafell ddosbarth, lle mawr i hybiau, grisiau cyflwyno a nifer o ystafelloedd ymneilltuo bach, sy'n caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i ni wrth ddylunio profiad dysgu na fyddem erioed wedi meddwl ei bod yn bosibl ddeng mlynedd yn ôl. Mae'r ystod o leoedd yn golygu y gallwn symud o ddysgu traddodiadol yn yr ystafell ddosbarth i waith grŵp deinamig yn yr hyb, i gyflwyniadau yn y manau trafod a'r darlithoedd ar y grisiau cyflwyno. Mae unrhyw beth yn bosibl nawr.

**Nicholas Jones**  
**Pennaeth y Gyfadran**





## Y Broses Recriwtio

---

### 1. Gwneud Cais

Gellir lawrlwytho ffurflenni cais drwy [www.eteach.com](http://www.eteach.com) – nid ydym yn derbyn CVs.

Dylid dychwelyd ffurflenni cais a lenwir ar barpur at: Mrs Laura Claypole, Ysgol Gyfun Trefynwy, Hen Heol Dixon, Trefynwy NP25 3YT.

Gellir afon ceisiasau drwy e-bost at: [mon.recruitment@monmouth.schoolsedu.org.uk](mailto:mon.recruitment@monmouth.schoolsedu.org.uk)

**Dyddiad Cau: Dydd Llun 17<sup>eg</sup> Mehefin am 12.00pm**

### 2. Proses Gyfweld

**Dyddiad Cyfweiliadau: Dydd Gwener 21<sup>ain</sup> Mehefin**

### 3. Gwybodaeth Ychwanegol

Cysylltwch â: Mrs Laura Claypole [mon.recruitment@monmouth.schoolsedu.org.uk](mailto:mon.recruitment@monmouth.schoolsedu.org.uk) i gael unrhyw wybodaeth bellach.

### 4. Diogelu

Mae penodiad i'r swydd hon wedi ei eithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwy ac mae'n amodol ar Wiriad Datgeliad Estynedig. Rhaid i ymgeiswyr fod yn gwybod am a chydymffurfio gyda pholisïau a gweithdrefnau yn gysylltiedig ag amddiffyn a diogelu plant, iechyd, diogelwch a sicrwydd, cyfrinachedd a diogelu data, gan hysbysu'r person priodol am bob mater o gonsyrn.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob adran o'r gymuned. Croesewir ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg, a chânt eu trin yn gyfartal.

